Adroddiad Cyfarfod 12:12:18
Cinio Nadolig Cangen Bethel

Gwesty'r Celt yng Nghaernarfon oedd ein dewisle i ddathlu'r Nadolig eleni. Yn brydlon am 7.15 cyrhaeddodd 31 ohonom ein cyrchfan, gan edrych ymlaen am wledd. Ac wrth gwrs ni chawsom ein siomi, sawl yn yn canmol y twrci a'r trimins, eraill yn dweud bod yn cig eidion y gorau 'rioed, heb son am y draenog môr a'r bwyd llysieuol, y cwbl yn berffaith. Yr un oedd y stori gyda'r pwdinau a phawb bron yn rhy llawn i fwynhau y fins pei dwym gyda'u paned. Yn dilyn ffasiwn wledd anodd oedd i Gwenan, ein bodloni ymhellach. Mi lwyddodd ein llywydd i'n difyrru'n berffaith gyda chwis ar y thema 'Ble yn y byd?' Dechrau gyda 'ble yng Nghymru' a nodi ar fap safle nifer o lefydd adnabyddus, yna 'ble ym Methel', gyda chyfres o luniau anarferol o lefydd a phethau arferol, a'r ola oedd 'ble yn y corff' gyda'r dasg o nodi'n union ar fraslun o'r corff lle oedd gwahanol lefydd fel clavicle ayyb. Diolch i Gwenan am yr adloniant ac i Mair a Cecile am drefnu'r noson.

Y mis nesa cawn gwmni'r optegydd Gwen Davies fydd yn son am lechyd y llygad – Cymru a'r trydydd byd